

# Y Wennol Newydd

Cyfrol 1 Rhif 1

Straeon gan dysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

E-bost bobwennol@ntlworld.com

## Croeso i'r Wennol Newydd!

Y Wennol Newydd? Ydi hynny'n golygu bod hen Wennol wedi bod? Ydi, mae ond roedd hynny tua ugain mlynedd yn ôl yn y cyfnod pan o'n i'n diwtor ym Mhowys. Roedd dysgwyr yn anfon straeon ataf fi ac roeddwn i'n ei gyhoeddi nhw yn y cylchlythyr pob mis, roedd dysgwyr eraill yn eu darllen nhw a nhw wedyn yn cyfrannu.

Mae pobl yn meddwl bod mynd i'r dosbarth nos yn ddigon er mwyn dysgu Cymraeg ond dydi o ddim o bell ffordd. Er mwyn ehangu eich geirfa mae'n rhaid i chi ddarllen, i ddechrau darllenwch lyfrau ar gyfer plant yn eu harddegau, llawer ohonyn nhw. Mewn amser byddech chi'n mwynhau darllen a bydd dim lle yn eich tŷ!

Mae rhaid i chi wrando ar y radio, peidiwch â meddwl bod gwyllo Pobl y Cwm efo isdeitlau o fudd i chi achos mae hynny yn cadw eich meddwl yn yr iaith Saesneg. Y radio sydd yn bwysig, achos does dim isdeitlau.

Mae ysgrifennu yn rhoi mwy o amser i chi fynegi eich hun a bydd hyn o fudd i chi pan dach chi mewn sgwrs.

Felly, beth sydd yn bwysig, yn ychwanegol i'ch dosbarth nos yw:

- 1 Darllen llyfrau
- 2 Gwrando ar y radio (Radio Cymru, wrth gwrs)
- 3 Ysgrifennu straeon i'r Wennol Newydd

Mi fydda i'n dweud mwy am hyn mewn rhifau eraill o'r cylchgrawn, felly mwynhewch y darllen a dw i'n edrych ymlaen at eich cyfraniad.

---

## Bywyd Newydd Gabriela

Gan Mary Evans

Mae fy wyres Gabriela bron yn 7 ac yn byw ym Marselona, Sbaen. Mae hi adre o'r ysgol Gatalaneg ers 6 wythnos. Mae fy mab Alun a'i wraig Djanira yn gweithio oddi gartref ar hyn o bryd.

Mae trefn newydd ar fywyd Gabriela. Chwarter awr yr un ar:-

- a) ymarfer piano
- b) ddysgu darllen yn Saesneg
- c) ymarfer darllen yn y Gymraeg
- ch) ddysgu darllen yn Sbaeneg (gyda Mam-gu a Thad-cu yn Sbaen)

d) peintio ac adeiladu gyda Lego a llawer o bethau eraill.

Ydych chi'n mynd i efelychu Gabriela a gwneud mwy o ymarfer darllen Cymraeg? Gobeithio yn wir. Defnyddiwch y Wennol Newydd er mwyn darllen mwy yn y Gymraeg nawr tra bo' chi'n aros yn y tŷ.

## Taith Fach i Hestercombe Gardens

Gan Shelagh Fishlock

Gwnes i ymweld â Hestercombe Gardens ger Taunton yng Ngwlad yr Haf ar ddiwrnod hyfryd jest cyn i'r ardd gael ei chau oherwydd "lockdown."

Roedd ardd yn Hestercombe yng nghyfnod yr Eingl-Sacsonau, ond crëwyd yr ardd dirlun gan berchennog y plasty yn 1750, gyda choedwig, llynnoedd, rhaedrau a nentydd, a sawl adeilad bach "rhamantus" neu gothig. Ers 1908 mae gardd ffurfiol wrth y plasty hefyd (gan Edwin Lutyens).

Erbyn y saithdegau roedd y gerddi mewn cyflwr gwael, ond yn 1995 dechreuwyd prosiect i adfer yr ardd dirlun a'r adeiladau. Mae'r gwaith dal yn parhau.

Treuliais i ddwy awr yn cerdded ar hyd y llwybrau ac yn mwynhau arwyddion y gwanwyn.



Roedd llawer o gennin Pedr a llygaid Ebrill, a blodau hyfryd ar sawl goeden. Ar y llyn roedd par o wyddau Canada ymhlith yr hwyaid, a dau alarch ifanc. (Bu farw'r hen gwpl y llynedd).

Mae'n drist iawn na fydda i'n gallu mynd yno eleni yn ystod yr amser mae'r clychau'r gog yn blodeuo, ond gobeithio bydd mwy o gyfle mwynhau'r byd naturiol yn yr hydref, neu'r gwanwyn nesaf.

### Geirfa

Gardd tirlun—landscaped garden

Gardd ffurfiol—formal garden


Adfer—to restore

Gwyddau Canada—Canada geese

Clychau'r gog—bluebells

*Diolch yn fawr am dy gyfraniad Shelagh, mae'r stori yn gwneud i mi sylweddoli na fydda i'n cael fy nhynnu yn ôl i fy mhлentyndod eleni. Mae hynny yn beth drist iawn. Y peth ydi, pan o'n i'n byw yn Llanallgo, sir Fôn roedd gan fy nhad gyfrifoldeb am ddau blwyf sef Llanallgo a Llaneugrad. Roedd eglwys Llaneugrad ar stad breifat ac ar ochr y lôn fach ar y ffordd yno roedd llawer o arlleg gwyllt yn y gwanwyn. Allaf fi byth clywed oglau garlleg gwyllt heb gael fy nhynnu nôl mewn amser, yn bell yn ôl i fy mhлentyndod.*

*Roedd y stad yn perthyn i ryw Gyrnol, dw i wedi anghofio ei enw. Roedden ni'n mynd i chwarae efo mab y gogyddes a dw i'n cofio roedd y tŷ yn llawn gynnau. Roedd gynnau i ladd bob math o anifeiliaid, dw i'n cofio gweld blunderbus yna. Od iawn beth mae pobl eisiau casglu, ond wrth gwrs cyfnod hollol wahanol oedd y 1950 cynnar.*



### Eglwys Sant Iago

Mae gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal yn eglwys Sant Iago, Walter Road, Abertawe ar y 1af, 3ydd a'r 5ed Sul yn y mis am 9.00yb.

Unwaith mae'r argyfwng yma drosodd ac mae popeth fel yr oedd bydd croeso mawr i chi fod efo ni.

## Mynd am Dro

Gan Michael Williams

Yn ystod y tywydd da yn ddiweddar dw i wedi bod allan bob dydd i fynd am dro - rhywle gwahanol bob tro. Ond ddydd Gwener ro'n i'n rhy uchelgeisiol! Penderfynais adael y car ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Southgate a cherdded i Bwll Du.

Y tro diwethaf fe wnes hynny oedd tua thri deg neu bedwar deg mlynedd yn ôl, a doeddwn i ddim yn siŵr am y ffordd. Yn anffodus dewisais y ffordd waethaf - cerdded ar hyd Lôn Hael lawr i waelod y cwm. Cymerodd y daith dri chwarter awr!

Wrth gerdded ar hyd y llwybr yn y cwm es i heibio arwydd a ddywedodd "Higher Pennard", a meddyliais byddai hynny yn siwrnai fyrrach yn ôl i Southgate.

Ar ôl dringo'r llwybr serth allan o'r cwm roedd y llwybr yn anodd dilyn, ac fe ddechreuais boeni fy mod ar goll! Ar ôl tua phymtheg munud trodd y llwybr i lawr tuag at waelod y cwm.

Erbyn hyn roedd fy ffôn wedi marw, ond ro'n i'n gwybod taw cerdded i'r gorllewin oedd y peth iawn i'w wneud. Felly penderfynais fynd i mewn i gae, ac yn yr ail gae des i o hyd i'r llwybr gwreiddiol. Cyrhaeddais y car ar ôl dwy awr yn teimlo'n flinedig iawn!

Sut dwpsyn oeddwn! Dylwn i fod wedi edrych ar fap cyn cychwyn. Roedd fy merch yn grac gyda mi am beidio â mynd allan gyda ffôn wedi'i wefru'n llawn. "Gallech chi fod wedi cwmpo" meddai hi!

### Geirfa

Ymddiriedolaeth Genedlaethol—National Trust

Llwybr gwreiddiol—original path

Wedi'i wefru'n llawn—fully charged

## Hanes William Crach

Gan Martin Jones

Ar o' i Llewellyn ein Llyw olaf cael ei ladd ym 1282 nid oedd neb yn eistedd yn ôl a derbyn y sefyllfa ac yn y flwyddyn 1287 cododd y Cymry dan arweinyddiaeth Rhys ap Maredudd. Cipion nhw nifer o gestyll yng Ngorllewin Cymru, cyn ymosod ar arglwyddiaeth Gŵyr, lle cafodd y gwrthryfelwyr eu hymuno gan bobl nad oedd yn hapus gydag arglwydd Gŵyr, William de Braose. Yn eu plith roedd William Crach.

Ymosododd y gwrthryfelwyr ar Gastell

Ystumllwynarth a rhoddodd y gastell ar dân, ond cyn diwedd y flwyddyn cafodd y Cymry eu curo. Er i William de Braose ddangos trugaredd tuag at y gwrthryfelwyr, penderfynodd e wneud esiamplo o ddau ddyn - Trahaearn ap Hywel a William Crach.

Felly ym mis Tachwedd 1290, daethpwyd â nhw o'r carchar yng Nghastell Abertawe i'r crocbren (a oedd yn sefyll rhywle ar y bryn yn ardal Mount Pleasant). Ond nid fel y crocbren yn y gêm Hangman oedd e, ond dau bost gyda thrawst ar eu traws.

Cafodd William Crach ei grogi oddi wrth y trawst yn gyntaf. Ond roedd Trahaearn ap Hywel yn ddyn mawr a thrwm, ac efallai bod y trawst yn bydredig – felly pan geision nhw ei grogi, torrodd y trawst a chwympodd y ddau ddyn i'r llawr. Ond ar ôl amser byr, cawson nhw eu crogi unwaith eto, y tro hwn oddi wrth pyst y crocbren, er mwyn sicrhau eu bod nhw ill dau wedi marw.

Arhoson nhw yno am sbel (mae atgofion y tystion yn wahanol ynglŷn â faint o amser). Wedyn, tua machlud haul cafodd corff William Crach ei symud i Gapel St John, ond gan fod drws y capel wedi'i gloi, aethpwyd â'r corff i dŷ Thomas Mathews. Dwedodd y tystion a welodd y corff fod wyneb William Crach yn ddu, ei dafod wedi'i chwyddo, a bod ei lygaid yn gwthio allan o'u tyllau.

O ran digwyddiadau yn nhŷ Thomas Mathews, mae'r tystion yn cytuno ynglŷn â beth ddigwyddodd, ond nid ynglŷn â phryd ddigwyddodd popeth. Ond mae'n ymddangos i Mary de Braose, gwraig William de Braose, anfon rhywun i fesur corff William Crach. Arfer cyffredin ar y pryd oedd hyn: sef mesur hyd a lled rhan y corff wedi'i anafu (yn achos William Crach, y corff i gyd) â llinyn ac wedyn gorchuddio'r llinyn â chwyr i wneud kannwyll. Byddai'r gannwyll yn cael ei chynnau i dynnu sylw sant a fyddai'n cyfryngu ar ran y person wedi'i anafu a'i iacháu'n wyrthiol. Yn yr achos hwn, roedd Mary de Braose yn ceisio tynnu sylw ysbryd Thomas de Cantilupe, diweddar esgob Henffordd yr oedd llawer o wyrthiau'n cael eu priodoli iddo fe bryd hynny.

Dydy hi ddim yn glir pam oedd gan Mary de

Braose diddordeb yn William Crach, ond mae'n ymddangos ei bod hi wedi gofyn i'w gŵr cyn y crogiad am arbed ei fywyd, ac ar ôl y crogiad ei bod hi wedi gofyn i'w gŵr am ei gorff. A hefyd, fel rwyf i wedi esbonio yn barod, roedd hi wedi mesur corf William Crach a gweddïo ar Thomas de Cantilupe dros ei fywyd.

Mae beth ddigwyddodd nesaf yn anhygoel, achos ar ôl tipyn dechreuodd William Crach wella. Yn gyntaf, symudodd un o'i draed, ac wedyn dechreuodd e anadlu ac aeth ei lygaid yn ôl yn eiu tyllau. Dwedodd Mary de Braose ei bod hi wedi clywed bod William Crach yn ôl yn fyw, ac ei bod hi wedi gwneud cawl iddo fe ei fwyta am nifer o ddiwrnodau achos ni allai fe lyncu bwyd solet.

Ar ôl i William Crach wella yn llwyr, aeth e i gastell Abertawe mewn gobaith cael ei faddau. Credodd William de Braose taw gwyrth oedd gwelliant William Crach, ac yn wir cafodd William Crach ei faddau. Wedyn teithiodd William de Braose, Mary de Braose, a William Crach i Henffordd i roi diolch i Thomas de Cantilupe wrth ei feddrod.

Mae ein gwybodaeth am hanes William Crach yn dod o'r llawysgrif sy'n rhoi manylion yr ymholiad gan y Fatican i mewn i'r gwyrthiau a oedd yn cael eu priodoli i Thomas de Cantilupe. Cynhaliwyd yr ymholiad hwn bron ugain mlynedd ar ôl y digwyddiadau wedi'u disgrifio uchod, ac nid yw'n syndod bod gwahaniaethau yn adroddiadau'r tystion. Ac yn y diwedd, penderfynodd comisynwyr y Fatican taw nid gwyrth oedd beth a oedd wedi digwydd yn Abertawe. Efallai roedden nhw'n poeni am wahaniaethau yn y dystiolaeth a chawson nhw ddim eu darbwylllo ynglŷn â rhan Thomas de Cantilupe yng ngwelliant William Crach. Neu efallai roedden nhw yn credu y gwnaethpwyd cawl o'r crogiad.

Ond o ganlyniad i nifer o wyrthiau eraill wedi'u priodoli i Thomas de Cantilupe, daeth e yn sant ym 1320.

*(Os ydych am ddarllen mwy, mae Andrew Dulley wedi ysgrifennu llyfr ynglŷn â stori William Crach: The Mystery of William Crach, The Hanged Man of Gower.)*

## Geirfa

Arweinyddiaeth—leadership  
 Arglwyddiaeth—lordship  
 Gwrthryfelwyr—insurgents  
 Trugaredd—mercy  
 Pydredig—rotten  
 Cwyr—wax  
 Cyfryngu—to mediate  
 Cael ei faddau—to be forgiven  
 Gwyrth—miracle  
 Darbwyllo—to persuade

A dyma ni rhifyn cyntaf o'r Wennol Newydd wedi ei gwblhau. Dw i'n ddiolchgar iawn i Mary, Shelagh, Michael a Martin am fod mor barod i gyfrannu straeon. Mae'n rhaid dweud diolch hefyd i Val sydd wedi cyfrannu cerdd a fydd yn y rhifyn nesaf, ac ia, mi fydd rhifyn nesaf, llawer ohonyn nhw gobeithio. Llawer o gyfranwyr newydd hefyd.

Yn yr amser anodd dyn ni'n byw ynnddi ar hyn o bryd mae cadw cysylltiad yn bwysig, mae cadw'r iaith i fynd yn bwysig hefyd. Efallai, wrth fynd ymlaen efo'r Wennol Newydd bydden ni'n cryfhau ein cymuned hefyd.

Mae llawer o bobl yn dewis dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, pob clod iddyn nhw. Ond mae'n rhaid i ni wybod pwy ydyn nhw achos i gael y gorau allan o ddysgu mae'n rhaid iddyn nhw gael ein cefnogaeth. Mae'n rhaid i ni siarad efo nhw, rhoi'r cyfle iddyn nhw ymarfer eu Cymraeg a denu nhw i mewn i'n cymuned.

Mae angen gwaed newydd i'n cymdeithasau, ein cylchoedd cinio, ein heglwysi a'n capeli. Mewn lle fel Abertawe mae llawer o siaradwyr Cymraeg ond pwy ydyn nhw? Mae potensial mawr i glywed mwy o Gymraeg o'n cwmpas. Felly anfonwch y cylchlythyr yma ymlaen at bwy bynnag dach chi'n nabod sydd yn siarad Cymraeg. Dydw i ddim eisiau swnio fel Tesco fan hyn ond mae'n wir i ddweud bod 'pob dim yn help!'

Edrychwch ar ôl eich hunain. Tan y tro nesaf - Hwyl am y tro! Rob Evans